WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd – Adolygiad Dilynol – **Cyngor Sir Powys**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1724A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Powys fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, na staff Swyddfa Archwilio Cymru, yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb yng nghyswllt unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall fel unigolion, nac yng nghyswllt unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cyflawnwyd y gwaith gan Grant Thornton UK LLP dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Hyd yma, mae'r Cyngor wedi llwyddo i leihau ei wariant ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a chynnal ei berfformiad ar yr un pryd. I wneud arbedion pellach tebygol, bydd angen i'r Cyngor fod yn arloesol i allu trawsnewid gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn gyflym er mwyn eu gwneud mor gadarn â phosibl dros y tymor canolig 7

Mae adnoddau'r Cyngor i gyflenwi ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau er 2014-15, a disgwylir gostyngiadau pellach yn y blynyddoedd nesaf 7

Mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau yn ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd i wneud arbedion, ond mae angen iddo fod yn fwy trawsnewidiol i wneud yr arbedion gofynnol i'r dyfodol ac ystyried effaith y newidiadau a wneir i'r dyfodol ar ddefnyddwyr gwasanaethau 9

Mae gan y Cyngor drefniadau i fonitro perfformiad ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd, gwasanaethau y mae wedi llwyddo i'w cynnal ar y cyfan, er bod ei adnoddau wedi lleihau, ond mae lle i gryfhau ei drefniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu ar ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd 10

Atodiadau

Atodiad 1 – Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – Cyflawni â llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion, Hydref 2014 12

Atodiad 2 – Cynnydd y Cyngor yn rhoi sylw i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Beth wnaethom ei adolygu a pham

1 Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol **Cyflawni â llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion** (gweler Atodiad 1 am yr argymhellion o'r adroddiad hwnnw). Fe wnaeth ein hadolygiad yn 2019 asesu a fu unrhyw newidiadau yn y gyllideb a'r staff yng ngwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi rhoi sylw i'r argymhellion a gynhwysir yn ein hadroddiad cenedlaethol yn 2014. At ddibenion yr adolygiad hwn, fe wnaethom ganolbwyntio ar gynnydd y Cyngor wrth iddo roi sylw i argymhellion 2, 3, 4 a 5.

2 Mae gan Gynghorau nifer o ddyletswyddau iechyd yr amgylchedd statudol ac mae dinasyddion yn gwerthfawrogi llawer o'r gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a ddarperir yn fawr iawn. At hynny, mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd, lles a diogelwch trigolion ac ymwelwyr â Chymru.

3 Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cwmpasu nifer fawr o faterion, megis diogelwch bwyd, rheoli plâu, rheoli cŵn, tai a lleihau achosion ac effeithiau llygredd aer.

4 Fel sail i'n canfyddiadau, fe wnaethom gyfweld detholiad o swyddogion ac aelodau Cabinet, y mae eu cylch gorchwyl yn cynnwys trefniadau iechyd yr amgylchedd y Cyngor. Fe wnaethom hefyd adolygu dogfennau perthnasol.

5 Cynhaliom yr adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng Awst a Medi 2019.

## Cefndir

6 Mae Powys yn sir wledig a rhaid i'r ddarpariaeth gwasanaethau gwmpasu ardal fawr. Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth Powys yn byw mewn pentrefi a threfi bychan. Y trefi mwyaf ydy'r Drenewydd, Ystradgynlais ac Aberhonddu.

7 Trefnir y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn ddau faes sy'n cyflenwi'r gwasanaethau canlynol:

Arddangosyn 1: Gwasanaethau iechyd yr amgylchedd Cyngor Sir Powys

| Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd - Masnachol | Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd - Diogelu |
|---|---|
| Trwyddedu | Niwsans statudol megis sŵn |
| Diogelwch bwyd | Trwyddedau Atal a Rheoli Llygredd Aer Lleol (LAPPC) ac ansawdd aer |

| Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd - Masnachol | Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd - Diogelu |
|---|---|
| Rheoli Clefydau Heintus | Asesiadau risg a monitro cyflenwadau dŵr preifat |
| Iechyd a Diogelwch | Rheoli cŵn |
| Draeniau | Tipio anghyfreithlon |
| | Tir halogedig |

8 Mae'n bosibl bod gan y ddau faes gyfrifoldebau ychwanegol sydd y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn, megis angladdau iechyd cyhoeddus.

## Beth wnaethom ei ganfod

9 Nod ein hadolygiad oedd ceisio ateb y cwestiwn: A yw gwasanaeth iechyd yr amgylchedd y Cyngor yn dal i gyflawni ei rwymedigaethau statudol ac ystyried yr heriau ariannol?

10 Yn gyffredinol, gwelsom fod y Cyngor, hyd yma wedi llwyddo i leihau ei wariant ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a chynnal ei berfformiad ar yr un pryd. I wneud arbedion pellach tebygol, bydd angen i'r Cyngor fod yn arloesol i allu trawsnewid gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn gyflym er mwyn eu gwneud mor gadarn â phosibl dros y tymor canolig.

11 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae adnoddau'r Cyngor i gyflenwi ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau er 2014-15, a disgwylir gostyngiadau pellach yn y blynyddoedd nesaf.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau yn ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd i wneud arbedion, ond mae angen iddo fod yn fwy trawsnewidiol i wneud yr arbedion gofynnol i'r dyfodol ac ystyried effaith y newidiadau a wneir i'r dyfodol ar ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Mae gan y Cyngor drefniadau i fonitro perfformiad ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd, gwasanaethau y mae wedi llwyddo i'w cynnal ar y cyfan, er bod ei adnoddau wedi lleihau, ond mae lle i gryfhau ei drefniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu ar ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd.

# Cynigion ar gyfer Gwella

## Arddangosyn 2: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn cynnwys y cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| C1 | Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnwys rhanddeiliaid pan wneir newidiadau mewn gwasanaethau allweddol lle bo hynny'n berthnasol a'i fod hefyd yn ystyried yr effaith y gallai'r newidiadau ei chael ar ddefnyddwyr gwasanaethau. |
| C2 | Dylai'r Cyngor ystyried sut gall gryfhau ei drefniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu ar ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd. |
| C3 | Mae angen i'r Cyngor ystyried ar frys sut mae'n mynd i ail-siapio a thrawsnewid ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd i fodloni'r gofyn i wneud arbedion i'r dyfodol a'u cryfhau er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau statudol. |
| C4 | Dylai'r Cyngor ystyried cyflwyno cyfleoedd datblygu a hyfforddi mwy strwythuredig ac wedi'u targedu ar gyfer aelodau perthnasol, er enghraifft, ar y newidiadau mewn deddfwriaeth iechyd yr amgylchedd. |

# Adroddiad manwl

## Hyd yma, mae'r Cyngor wedi llwyddo i leihau ei wariant ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a chynnal ei berfformiad ar yr un pryd. I wneud arbedion pellach tebygol, bydd angen i'r Cyngor fod yn arloesol i allu trawsnewid gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn gyflym er mwyn eu gwneud mor gadarn â phosibl dros y tymor canolig


### Mae adnoddau'r Cyngor i gyflenwi ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau er 2014-15, a disgwylir gostyngiadau pellach yn y blynyddoedd nesaf

12 I ddod i'r casgliad hwn canfuom:

- Fod y cyllidebau ar gyfer y gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi gostwng o £1.6 miliwn yn 2013-14 i £1.37 miliwn yn 2019-20. Mae hwn yn ostyngiad o 15%, sy'n debyg i gynghorau eraill lle gwnaethom yr adolygiad dilynol hwn, lle gwelwyd gostyngiadau'n amrywio o 2 i 21% dros yr un cyfnod (Arddangosyn 3 isod).
- Bod niferoedd staff cyffredinol yn y gwasanaeth wedi gostwng dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2014, roedd y Cyngor yn cyflogi 45.7 FTEs (cyfwerth ag amser llawn), o'i gymharu â'r 34.63 FTEs a gyflogir ar hyn o bryd – sy'n ostyngiad cyffredinol o 11 (mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r FTE agosaf). Mae'r newid hwn i'w weld oherwydd gostyngiad o 11.15FTE technegydd, tra bo nifer y staff cymwysedig wedi cynyddu 3.29FTE. (Gweler Arddangosyn 4 isod).
- Y bydd gofyn i'r gwasanaeth diogelu'r cyhoedd (sy'n cynnwys gwasanaethau iechyd yr amgylchedd) wneud arbedion sylweddol pellach yn y ddwy flynedd nesaf. Yn 2020-21 gwneir arbedion o £161,000 drwy ad-drefnu'r tîm rheoli Cynllunio, Eiddo a Diogelu'r Cyhoedd. Yn 2021-22 mae gofyn gwneud arbedion o £700,000 yn yr adran Cynllunio, Eiddo a Diogelu'r Cyhoedd; mae £600,000 o hwn yn ymwneud â Diogelu'r Cyhoedd (£400,000 gwasanaethau iechyd yr amgylchedd) ac nid ydynt wedi cael eu canfod eto.
- Bod y Cyngor wedi cael amrywiol grantiau megis:
  - Grant Rheoli Diogelwch Bwyd (FSM) o 2014 i 2017. Ni ymgeisiodd y Cyngor am y grant yn 2018-19 gan fod y Cyngor yn credu nad yw cyfradd y cyllid yn ddigonol mwyach i dalu am gost amser swyddogion.
  - Cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith Sgorio Hylendid Bwyd.


– Cyllid Brexit gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA).
– Cyllid gan yr FSA i gynnal digwyddiadau hyfforddiant cysondeb ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd pob cyngor ar draws Cymru.

Arddangosyn 3: cost Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd




Nid yw Arddangosyn 3 yn cynnwys yr incwm a'r costau sy'n gysylltiedig â chyflenwadau dŵr preifat.

Arddangosyn 4: nifer y staff (yn ôl gradd) a gyflogir gan y Cyngor yn 2019 o'i gymharu â 2014



Nid yw Arddangosyn 4 yn cynnwys yr holl staff gweinyddol, gan fod yr aelodau staff hyn yn rhai canolog ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn ffigurau llinell sylfaen 2014. Yn 2019 mae gan y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd gyfanswm o 8.28FTE staff gweinyddol. Ni allai'r Cyngor ddarparu'r ffigur ar gyfer 2014.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau yn ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd i wneud arbedion, ond mae angen iddo fod yn fwy trawsnewidiol i wneud yr arbedion gofynnol i'r dyfodol ac ystyried effaith y newidiadau a wneir i'r dyfodol ar ddefnyddwyr gwasanaethau

13 Mae gwasanaeth iechyd yr amgylchedd y Cyngor wedi lleihau ei gyllideb hyd yma drwy:

- Leihau staff ac adolygu strwythurau
- Atal gwasanaeth dewisol (rheoli plâu) yn 2014
- Rhoi'r gwasanaeth warden cŵn ar gontract allanol yn 2011. Mae gan y Cyngor gontract â dau gontractwr preifat, y maent yn talu tâl cadw iddynt ynghyd â ffi y cytunwyd arni am gasglu cŵn strae. Caiff perfformiad y contractwyr hyn ei asesu'n flynyddol drwy gyfarfodydd â'r ddau gontractwr.
- Cynyddu'r ffioedd a'r prisiau. Yn 2016, penderfynodd y Cyngor gyflwyno ffi am ei gyngor hylendid bwyd. Dirprwywyd y penderfyniad i Arweinydd y Portffolio. Ym mis Mawrth 2019, cytunodd y Cyngor i gynyddu amrywiol brisiau a ffioedd dewisol ar gyfer y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd a chynyddodd nifer yr asesiadau risg a gynhaliwyd ar gyfer cyflenwadau dŵr preifat, a bu hyn o gymorth i gynhyrchu incwm ychwanegol.
- Codi ffi am gyngor hylendid bwyd ym mis Mai 2016.

14 Ymgynghorwyd ar y newidiadau yn y gwasanaethau a restrir uchod fel rhan o broses pennu cyllideb gorfforaethol y Cyngor.

15 Gwelsom ddwy esiampl arall o newidiadau mewn gwasanaethau lle cynhaliwyd y broses ymgynghori uniongyrchol y tu allan i'r broses pennu cyllideb:

- Strategaeth toiledau lleol – cynhaliodd y Cyngor ymarferiad casglu data cyn llunio'r strategaeth ac ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y strategaeth ddrafft.
- Ymgynghoriad ar newidiadau yn y cynllun trwyddedu tai amlfeddiannaeth.

16 Gwelsom un newid arall yn y gwasanaethau iechyd yr amgylchedd nas cynhaliwyd ymgynghoriad arnynt, sef cynnal rhagor o asesiadau risg ar gyfer cyflenwadau dŵr preifat er mwyn cyrraedd targedau statudol. Cwblhawyd asesiad o effaith, ond ni nodwyd ar yr asesiad o effaith y rheswm pam na theimlwyd bod ymgynghoriad yn angenrheidiol fel y mynna'r ffurflen.

17 Gan edrych i’r dyfodol, mae’r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn rhagweld y disgwylir arbedion sylweddol yn 2021-22. Mae’n dechrau ystyried sut gallai’r rhain effeithio ar sut caiff ei wasanaethau statudol ac anstatudol eu cyflenwi.

18 Mae cynlluniau busnes y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn datgan ar lefel uchel swyddogaethau statudol ac an-statudol y gwasanaeth. Mae’r swyddogion yn cydnabod bod angen gwneud dadansoddiad mwy manwl o’r rhain ac maent wedi dechrau gweithio ar hyn. Nod yr ymarferiad manylach hwn yw ategu’r broses cynllunio busnes a hwyluso unrhyw benderfyniadau sy’n ofynnol i’r dyfodol ynglŷn â gostyngiadau yn y gyllideb.

19 Mae’r Cyngor wedi cynnal ymarferiad tebyg o’r blaen. O ganlyniad, rhoddodd y gorau i ddarparu gwasanaethau rheoli plâu ym mis Hydref 2014 a rhoddodd ei wasanaeth rheoli cŵn allan ar gontract yn 2011.

20 Mae’r Cyngor wedi cyflwyno ap sŵn i’w gwneud yn haws i’r cyhoedd ddweud wrthynt am bryderon ynglŷn â sŵn. Mae’r ap sŵn wedi galluogi’r Cyngor i flaenoriaethu cwynion am sŵn gan eu helpu i wybod lle i leoli cyfarpar mesur sŵn. Mae’r Cyngor hefyd wrthi’n cyflwyno system TG newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd. Mae’r Cyngor yn rhagweld y bydd y system TG newydd yn galluogi staff i weithio’n fwy ystwyth a sicrhau arbedion ac effeithlonrwydd i’r dyfodol.

21 Fodd bynnag, mae’r angen parhaus i wneud arbedion yn golygu bod yn rhaid i’r Cyngor ddal i edrych am ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon o ddarparu ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd. Er inni ganfod bod asesiadau o effaith sy’n ystyried costau, manteision ac effeithiau, wedi cael eu cynnal i lywio penderfyniadau allweddol am newid gwasanaethau, rhaid i’r Cyngor ddal i ystyried yn ofalus yr effaith a gaiff newidiadau mewn gwasanaethau ar ddefnyddwyr y gwasanaethau ac ymgysylltu â nhw fel y bo angen.

22 Dyma rai meysydd posibl lle gellid arloesi i’r dyfodol a chyfleoedd posibl i leihau costau a chynyddu incwm:

- Modelau cyflenwi cydweithredol â chynghorau eraill ar gyfer gwasanaethau, gan gydnabod bod daearyddiaeth Powys yn gwneud hwn yn gynnig llai syml nag i rai cynghorau eraill.
- Defnyddio data i ragweld yr angen am wasanaethau a thargedu ymatebion yn hytrach na chynnal darpariaeth gwasanaethau hollgynhwysol.
- Defnyddio rhagor ar systemau digidol a thechnoleg i leihau’r costau a geir wrth wasanaethu ardal wledig fawr.
- Rhoi rhagor o gymorth strategol ac integreiddio ag agendau gwasanaethau ehangach y Cyngor, gan gynnwys iechyd y cyhoedd, diogelwch cymunedol, iechyd a gofal cymdeithasol, cynllunio a thwf economaidd.

## Mae gan y Cyngor drefniadau i fonitro perfformiad ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd, gwasanaethau y mae wedi llwyddo i'w cynnal ar y cyfan, er bod ei adnoddau wedi lleihau, ond mae lle i gryfhau ei drefniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu ar ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd

23 Mae'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn rhan o'r gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, sy'n syrthio o fewn cylch gorchwyl Cyfarwyddiaeth yr Economi a'r Amgylchedd. Mae blaenoriaethau Iechyd yr Amgylchedd i'w gweld yng nghynllun busnes Eiddo, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ac yng nghynlluniau cyflenwi gwasanaethau dwy o swyddogaethau'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd; masnachol a diogelu'r amgylchedd. Rhaid i bob gwasanaeth nodi pum dangosydd perfformiad allweddol, ac mae dau o'r rhain yn ymddangos yng nghynlluniau'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd.

24 Caiff perfformiad ei fonitro bob chwarter a chyflwynir adroddiad arno i Bennaeth y Gwasanaeth, i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Deilydd Portffolio. Mae'r wybodaeth chwarterol am berfformiad ar gyfer y gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd (gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd) yn cynnwys yr 20 dangosydd perfformiad allweddol (DPA) uchaf, y pum DPA uchaf a'r gweithgaredd gwella corfforaethol. Mae'r adroddiadau ar berfformiad yn cynnwys gwybodaeth ansoddol a meintiol. Mae'r wybodaeth yn gynhwysfawr ac mae'n datgan yn glir pa gamau sy'n ofynnol i roi sylw i danberfformio.

25 Mae'r Cyngor, ar y cyfan, wedi cynnal ei berfformiad yn erbyn y ddau Fesur Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs)[1] iechyd yr amgylchedd:

- PAM013 - Canran o eiddo preifat gwag wedi'u hadfer i ddefnydd. Cyflawnodd y Cyngor 1.4% yn 2017-18 ac 1.6% yn 2018-19. Roedd hwn yn is na'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru, sef 5.2% yn 2017-18 a 4.6% yn 2018-19. Roedd y Cyngor yn 15[fed] allan o 22 cyngor yn 2018-19.
- PAM023 - Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd. Mae'r Cyngor wedi cynnal ei berfformiad ar oddeutu 96% (96.01% yn 2016-17, 95.88% yn 2017-18 a 95.3% yn 2018-19. Mae hwn wedi bod yn agos iawn i'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru, sef 95.89% yn 2018-19. Roedd y Cyngor yn 12[fed] allan o 22 cyngor yn 2018-19.

26 Cafodd y Safonau Ymarfer ar gyfer Iechyd yr Amgylchedd eu creu yn 2004 gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd ac fe'u diweddarwyd yn 2017. Maent yn darparu safonau perfformio y caiff cynghorau eu hannog i'w defnyddio i hunan-asesu eu gwasanaethau yn eu herbyn. Fe wnaeth y Cyngor adolygu ei berfformiad yn unol â'r Safonau Ymarfer cyn ein harchwiliad ond nid yw'n hunan-asesu yn erbyn y Safonau Ymarfer yn rheolaidd. Ar ôl gwneud yr hunan-asesiad, roedd y Cyngor yn gallu gweld bod y gwasanaethau'n cydymffurfio yn y rhan fwyaf o'r

[1] Ffynhonnell: Data Cymru

meysydd, ac eithrio profi cyflenwadau dŵr preifat. Y rheswm am hyn yw, er bod y gwasanaeth yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol ar gyfer cyflenwadau dŵr preifat, nid yw'n bodloni'r holl safonau yn y meysydd hynny sy'n ymwneud â chysylltu â chwmnïau dŵr.

27 Mae'r aelod portffolio arweiniol yn cael cyfarfodydd misol â Phennaeth y Gwasanaeth a'r swyddogion. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi'r arweinydd portffolio i gael golwg rheolaidd ar y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd a herio fel y bo angen.

28 Cyflwynodd y Cyngor strwythur pwyllgor craffu newydd ym mis Ionawr 2019. Mae Pwyllgor Craffu'r Economi, Trigolion, Cymunedau a Llywodraethu yn gyfrifol am graffu ar y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd.

29 Heblaw'r strategaeth toiledau ddiweddar, ni welsom dystiolaeth o graffu ar y gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, nac unrhyw resymeg dros ddweud nad oedd angen craffu ar y gwasanaethau hyn.

30 Mae'r Aelodau wedi cael hyfforddiant ar strwythur craffu newydd y Cyngor ac yn 2018 cawsant hyfforddiant cyffredinol ar gyfrifoldebau a rolau craffu. Ni ddarparwyd dim hyfforddiant na briffiau manwl ar faterion iechyd yr amgylchedd er 2016, pan gafodd yr aelodau hyfforddiant ar y cynllun cofrestru a thrwyddedu ar gyfer landlordiaid preifat.

# Atodiad 1

## Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – Cyflawni â llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion, Hydref 2014

Fel rhan o'i gyfres 'cyflawni â llai' o Astudiaethau Gwella Llywodraeth Leol, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad – Cyflawni â llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion, ym mis Hydref 2014. Roedd yn yr adroddiad chwech o argymhellion sydd i'w gweld isod:

Arddangosyn 5: argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Diwygio'r safonau ymarfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effeithiau gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. | Cynghorau, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru |
| A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbedion ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Ymgysylltu'n well â'r trigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau;<br>• defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
| --- | --- |
| A4 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain;<br>• pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy:<br>– gydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | Cynghorau |
| A6 | Nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau o dan ddeddfwriaeth tai ac iechyd newydd a chytuno sut y caiff y dyletswyddau newydd hyn eu cyflawni. | Llywodraeth Cymru,<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

# Atodiad 2

## Cynnydd y Cyngor yn rhoi sylw i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

Crynodeb o'r cynnydd a wnaeth y Cyngor i roi sylw i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, **'Cyflawni â llai: Yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion** (Hydref 2014).

Arddangosyn 6: Cynnydd y Cyngor yn rhoi sylw i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

| Argymhelliad | | Cynnydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r argymhellion |
|---|---|---|
| A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbedion ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Darparodd y Cyngor hyfforddiant i aelodau ar eu rolau a'u cyfrifoldebau yn 2018.<br>Darparwyd briff i aelodau yn 2016 ar Rhentu Doeth Cymru.<br>Ni ddarparwyd dim hyfforddiant manwl yn benodol ar gyfer y gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y blynyddoedd diwethaf. |
| A3 | Ymgysylltu'n well â'r trigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Ymgynghorwyd yn eang ar y gostyngiadau yn y gyllideb ar gyfer y gwasanaeth fel rhan o'r cynigion ar gyfer y gyllideb ar draws y Cyngor. Yn 2014-15 roedd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o godi tâl am gyngor hylendid bwyd. Yn y blynyddoedd diwethaf, ni fu dim newidiadau mawr y teimlai'r Swyddogion bod gofyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arnynt drwy'r broses hon.<br>Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y canlynol:<br>Strategaeth toiledau lleol – cynhaliodd y Cyngor ymarferiad casglu data cyn llunio'r strategaeth a chynhaliodd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y strategaeth ddrafft.<br>Ymgynghoriad ar newidiadau yn y cynllun trwyddedu tai amlfeddiannaeth.<br>Ni wnaeth y Cyngor ymgynghori ar y symudiad i gynyddu asesiadau risg ar gyfer profi cyflenwadau dŵr preifat, er bod asesiad o effaith wedi cael ei gynnal, ond nid oedd hyn yn esbonio pam na ystyriwyd bod ymgynghoriad yn angenrheidiol fel y mynna'r ffurflen. |

| Argymhelliad | Cynnydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r argymhellion |
|---|---|
| A4 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain,<br>• pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy:<br>– gydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | Mae'r Cyngor ar y cyfan wedi cynnal y perfformiad tra bo'r adnoddau wedi gostwng.<br>Mae cynlluniau busnes y gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn datgan swyddogaethau statudol ac anstatudol y gwasanaeth. Mae swyddogion wedi dechrau adolygu a datblygu dadansoddiad manylach o'r swyddogaethau hyn i nodi eu pwerau a'u dyletswyddau statudol. Nod yr ymarferiad hwn yw ategu eu cynllun busnes integredig a hwyluso unrhyw benderfyniadau sy'n ofynnol i'r dyfodol ynglŷn â gostyngiadau yn y gyllideb.<br>Mae'r Cyngor wedi ystyried ei wasanaethau dewisol a sut mae'n darparu gwasanaethau penodol. O ganlyniad, rhoddodd y Cyngor y gorau i ddarparu gwasanaethau rheoli plâu ym mis Hydref 2014 a rhoddodd ei wasanaeth rheoli cŵn allan ar gontract yn 2011.<br>Mae amcanion a blaenoriaethau'r gwasanaeth wedi'u datgan yn ei ddau gynllun busnes. Caiff perfformiad ei asesu'n unol â'r Safonau Ymarfer, ond nid yw'r gwasanaeth yn gwneud yr archwiliad hwn bob blwyddyn fel mater o drefn.<br>Mae Swyddogion y gwasanaeth yn mynychu cyfarfodydd a phanelau arbenigwyr cenedlaethol a rhanbarthol. Hefyd, i wella ansawdd a chynhyrchu incwm, mae'r Cyngor yn cyflwyno hyfforddiant cysondeb ledled Cymru ar yr FHRS ar ran yr FSA.<br>Rhoddwyd y gwasanaeth Warden cŵn allan ar gontract yn 2011. Mae dau gontractwr yn darparu'r gwasanaeth, un yn y gogledd a'r llall yn y de.<br>Mae'r Cyngor yn codi tâl am wasanaethau dewisol ac yn adolygu eu prisiau yn flynyddol.<br>Hyd yma, ni fu'n rhaid i'r gwasanaeth iechyd yr amgylchedd leihau'r gweithgareddau statudol ond mae wrthi'n adolygu ei swyddogaethau statudol ac anstatudol er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â gostyngiad yn y cyllid i'r dyfodol. |

| Argymhelliad | Cynnydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r argymhellion |
|---|---|
| A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | Mae blaenoriaethau iechyd yr amgylchedd yn cael eu datgan yn y cynllun Eiddo, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ac yn y ddau gynllun busnes gwasanaeth-benodol Gwasanaethau Diogelu'r Amgylchedd a Masnachol Iechyd yr Amgylchedd. Mae amcanion y Gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn gydnaws â Gweledigaeth 2025 y Cyngor ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.<br>Caiff y data ar berfformiad a'r data ariannol ei fonitro'n rheolaidd gan Arweinydd y Portffolio, Pennaeth y Gwasanaeth a'r Rheolwyr Gweithredol.<br>Mae penderfyniadau allweddol wedi cael eu harwain gan asesiadau o effaith sy'n ystyried costau, manteision ac effeithiau. Ychydig iawn o ddeallusrwydd busnes a gaiff ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn system TG newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd i alluogi hyn. |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru